ATODLEN 3

YR WYBODAETH SYDD I'W HANFON AT Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL MEWN CYSYLLTIAD Â CHYNIGION A GYHOEDDIR O DAN ADRAN 113A NEU ATODLEN 7

# RHAN I

## DEHONGLI

**1.** Yn yr Atodlen hon —

ystyr "y flwyddyn ysgol gyfredol" ("*the current school year*") yw'r flwyddyn ysgol y cyhoeddir y cynigion ynddi;

ystyr "arholiadau TAG Safon Uwch" ("*GCE* "*A*" *level examinations*") ac "arholiadau TAG Uwch Gyfrannol" ("GCE "AS" examinations") yw arholiadau Tystysgrif Addysg Gyffredinol Safon Uwch ac arholiadau Tystysgrif Addysg Gyffredinol Uwch Gyfrannol yn eu trefn;

ystyr "TGAU" ("*GCSE*") yw Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd;

ystyr "GNVQ" ("*GNVQ*") yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol;

ystyr "NVQ" ("*NVQ*") yw Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol;

"y radiws perthnasol" ("*the relevant radius*") yw radiws o 4.828032 cilometr (tair milltir); a

mae i "rhif safonol perthnasol" yr ystyr a roddir i "*relevant standard number*" gan adran 84(6) o Ddeddf 1998.